



Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

Datganiad Mynediad Gardd Bodnant

Tal y Cafn
ger Bae Colwyn
Conwy
LL28 5RE

Ffôn: 01492 650460

Ebost: bodnantgarden@nationaltrust.org.uk

Cyflwyniad

1. Rydym ar ochr dyffryn, ac mae yma lethrau serth, grisiau anwastad a dŵr dwfn sy'n llifo'n gyflym.
2. Mae'r signal ffôn yn ysbeidiol ac O2 ac EE yw'r rhwydweithiau sy'n gweithio orau. Os bydd argyfwng yn yr ardd ffoniwch y swyddfa ar 01492 650460.
3. Mae croeso i gŵn tywys bob amser, gall cŵn ymweld â ni bob dydd rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror yn gynwysedig, ac ar ôl 5pm ar nos Fercher rhwng mis Mai a mis Awst yn gynwysedig pan fyddwn ar agor yn hwyr.
4. Cofiwch gymryd sylw o'r amodau tywydd yn ystod eich ymweliad. Gwisgwch ddillad addas ar gyfer y tywydd ar ddiwrnod eich ymweliad.

Cyrraedd a Chyfleusterau Parcio

1. Mae'n hawdd dod o hyd i ni, dilynwch yr arwyddion brown o Gyffordd 19 yr A55 (tua 3 milltir). Ceir arwyddion brown hefyd ar hyd yr A470 rhwng Bodnant a Llanrwst (sylwer - dilynwch yr arwyddion sy'n dangos y logo t NID Canolfan Bwyd Cymru, Bodnant)
2. Mae tua 20 lle parcio i bobl anabl, 100 llath o'r fynedfa i'r ardd.
3. Cymysgedd o arwynebau tarmac a graean sydd yn y prif faes parcio, a cheir arwyneb tarmac yn y lleoedd parcio i'r anabl.
4. Nid oes gennym gerbyd i drosglwyddo ymwelwyr.
5. Mae ardaloedd ar gyfer gollwng a chodi teithwyr ar waelod y maes parcio gerllaw Ystafell De'r Pafiliwn.
6. Mae maes parcio gorlif ym mhen uchaf y maes parcio (i fyny allt). Yma mae'r lleoedd parcio ar laswellt a cheir ffyrdd tarmac. Mae'r maes parcio hwn tua 800 llath o'r fynedfa.
7. Mae tua 5 cadair olwyn gwthio a 2 ffrâm gerdded ag olwynion ar gael yn y maes parcio ar sail y cyntaf i'r felin.

Toiledau

1. Mae toiledau hygyrch yn y prif doiledau, gerllaw Ystafell De'r Pafiliwn, yn y ganolfan arddio ac yn y toiledau yn ardal Y Glyn.
2. Mae'r toiled hygyrch tua 1.5m x 2.2m o faint ac mae lle i droi cadair olwyn.
3. Mae ochrau trosglwyddo'r toiledau hygyrch o wahanol faint.
4. Nid oes gennym gyfleusterau newid ar gyfer oedolion na theclyn codi.
5. Caiff y toiledau eu goleuo â golau naturiol a golau trydan, ac eithrio'r toiledau yn ardal Y Glyn, lle nad oes golau naturiol.
6. Ceir sychwyr dwylo awtomatig ym mhob toiled ac maen nhw wedi'u goleuo â golau trydan ynni isel.

Derbynfa'r Ymwelwyr

1. Nid oes arwynebau meddal yn yr adeilad. Lloriau cerrig sydd yn yr ardal hon. Ceir paneli acwstig ar y nenfwd i leihau atsain.
2. Mae'r ramp o'r maes parcio i Dderbynfa'r Ymwelwyr â graddiant o 1:20, yn ogystal ag ardaloedd gwastad.
3. Mae drysau awtomatig yn arwain i mewn ac allan o dderbynfa'r ymwelwyr, mae pob drws tua 1 metr o led. Gallwn gynnig cymorth i'r rheini y mae angen cymorth arnynt gyda'r drysau.
4. Mae podiau'r dderbynfa tua 1.2m o uchder. Gall staff ddod allan o'r podiau os nad yw'r ymwelwyr yn gallu gweld drostynt.
5. Caiff yr ardal ei goleuo â golau naturiol a bylbiau ynni isel a deuodau allyrru golau (LEDs)
6. Mae cadeiriau ar gael, nid oes breichiau arnynt.
7. Nid oes system dolen anwytho ar gael ar ddesgiau'r dderbynfa.
8. Mae system dolen anwytho ar gael ger y ddesg recriwtio aelodau.
9. Nid oes gennym aelodau staff sy'n gallu defnyddio iaith arwyddion.

Arlwyo

1. Gellir cael mynediad i Ystafell De'r Pafiliwn drwy ddefnyddio ramp ar un ochr i'r adeilad a drws sydd ar lefel y llawr ar yr ochr arall. Nid oes grisiau yn unrhyw un o'r ystafelloedd te. Mae'r mynediad i'r Ystafell De Magnolia a'r ciosgau yn yr ardd yn wastad. Llawr laminiad sydd yn y pafiliwn, llawr llechi sydd yn yr ystafell de magnolia a graean sydd ar y llawr ger y ciosgau.
2. Uchder y cownter yn ystafelloedd te'r Pafiliwn a Magnolia yw tua 1.2m. Gall staff helpu ymwelwyr sydd yn cael anhawster oherwydd hyn.
3. Os gofynnir iddynt, gall staff helpu ymwelwyr nad ydynt yn gallu defnyddio'r drefn giwio.
4. Tua 1.2m yw'r gofod cylchrediad rhwng y byrddau.
5. Nid oes system dolen anwytho yn yr ystafelloedd te.
6. Nid oes copiau print o'r bwydlenni ar gael, ond gall staff helpu ymwelwyr i ddarllen y bwydlenni ar y wal.
7. Nid oes gennym gyllyll a ffyrc â charnau mawr na mygiau â dolennau dwbl. Mae gwellt yfed ar gael.

Adwerthu

1. Mae'r mynediad i siop yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn wastad. Mae un adran fach o'r siop ar lethr. Teils sydd ar y llawr.
2. 1200mm yw'r gofod cylchrediad rhwng y stondinau arddangos.
3. Nid oes system dolen anwytho yn y siop.
4. Gall staff estyn eitemau er mwyn i'r cwsmeriaid edrych arnynt os na allant eu cyrraedd.
5. Gall staff helpu'r cwsmeriaid i ganfod beth yw pris eitemau.

Yr Ardd

1. Mae map o'r ardd ar gael sy'n dangos y llwybrau serth a'r grisiau.
2. Ar hyn o bryd rydym yn treialu amryw o 'llwybrau hygrych' yn yr ardd sy'n osgoi llwybrau serth a grisiau.
3. Cerrig mân wedi'u cywasgu sydd ar y rhan fwyaf o'r llwybrau, ond mae rhai llwybrau yn mynd trwy ardaloedd o laswellt wedi'i dorri ac mae yma rhai llwybrau graean.
4. Mae rhai llwybrau serth yn yr ardd.
5. Mae llawer o risiau yn yr ardd, ond mae'n bosibl eu hosgoi i gyd.
6. Ceir canllawiau ar rai o'r grisiau, ond nid ydynt i'w cael ar yr grisiau cerrig hanesyddol.
7. Rhaid agor a chau ambell giât er mwyn atal anifeiliaid rhag dod i mewn i'r ardd.
8. Mae sawl mainc a sedd o amgylch yr ardd.
9. Mae sawl nodwedd ddŵr yn yr ardd, gan gynnwys pyllau addurniadol mawrion, afonydd a nentydd a rhaeadr fawr.

Manylion cyswllt i gael mwy o wybodaeth

Ffôn: 01492 650460

Ebost: bodnantgarden@nationaltrust.org.uk

Dyddiad 26/8/16